# Adolygiad ar ysgolion penrhyn Angle




Mae Cyngor Sir Penfro yn mynd i adolygu'r ddarpariaeth addysg ym Mhenrhyn Angle.

Yn sgil adroddiad ar ysgolion cynradd yn nheulu ysgolion ardal Penfro - a gafodd ei ystyried gan y Cyngor llawn ym mis Gorffennaf - fe benderfynwyd y bydd ymgynghoriad rhagarweiniol yn cael ei gynnal ynghylch dyfodol yr ysgolion yn ardal Angle.

Mae'r Cyngor yn ystyried nifer o ddewisiadau a fydd yn cael eu trafod mewn cyfarfod cyhoeddus a gynhelir yng Nghil-maen y mis nesaf.

A dyma'r tri dewis:

*Cadw pob un o'r pedwar safle ysgol fel y maent - lle byddai ysgolion WR Angle ac Ystagbwll dan un adain ffederal ynghyd ag ysgolion GG Orielton a Phriordy Cil-maen.

*Sefydlu ffederasiwn gydag ysgolion WR Angle ac Ystagbwll a chau ysgolion GG Orielton, a symud y disgyblion i Ysgol GG Priordy Cil-maen neu Ysgol Gymunedol Gelli Aur/Golden Grove.

* Cau Ysgolion Angle, Ystagbwll ac Orielton a sefydlu ysgol newydd - naill ai Ysgol Gynradd Gymunedol (GG) neu Wirfoddol a Reolir (WR) - ar un o'r safleoedd.

Cynhelir y cyfarfod cyhoeddus ar ddydd Llun 5 Hydref yn Neuadd Eglwys Priordy Cil-maen, Church Terrace, Cil-maen rhwng 6.30pm ac 8pm.

Bydd Kate Evan-Hughes, Pennaeth Addysg Cyngor Sir Penfro, yn rhoi cyflwyniad ac wedi hynny fe gynhelir sesiwn holi ac ateb.

Dim ond hyn a hyn o leoedd sydd ar gael, felly byddwch cystal â ffonio 01437 764551 er mwyn cadw lle i chi'ch hun.

Bydd y dogfennau ymgynghori a'r ffurflenni ymateb ar gael o Hydref 6 ymlaen yn www.pembrokeshire.gov.uk/haveyoursay
Y dyddiad terfynol ar gyfer ymatebion yw dydd Llun 10 Tachwedd.

Ar ôl yr ymgynghoriad rhagarweiniol bydd y Cyngor yn dod i benderfyniad ynghylch y dewis sydd orau ganddo, mewn perthynas â'r hwn y cynhelir ymgynghorid statudol ychwanegol wedi hynny.